

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn
Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 11 March 2019 am 8:15p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, Gavin Harris, John Wynne Hughes, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

66. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni oedd unrhyw dderbyniadau.

67. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cynghorydd Ifan Wyn ddatgan budd personol yn Eitem 6 – cais cynllun 02/2019/0031 – 36 Bro Deg, Rhuthun, gan fod yr eiddo y tu cefn i'w gartref.

68. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2019 yn gywir.

69. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

70. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych: 02/2019/0084 – 66 Borthyn, Rhuthun – Tystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer estyniad arfaethedig ar du cefn yr annedd – Ardystiwyd

02/2019/0041 – Tir yng Nglasdir, Rhuthun – Manylion y datganiad dull adeiladu a gyflwynwyd un unol ag amod 4 caniatâd cynllunio 02/2018/0889 – Cymeradwywyd

02/2019/0028 – 33 Llwyn Menlli, Rhuthun – Adeiladu estyniadau unllaw i ochr a thu ôl yr annedd – Caniatawyd

02/2019/0057 – Cil y Coed, 8 Glasfryn, Rhuthun – Gwaith i goed sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed – Caniatawyd

02/2019/1199 – Tir ger yr Hen Glwystai, Rhodfa'r Eglwys, Rhuthun – Adeiladu un annedd, garej sengl ac addasiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau – Disgwyl am benderfyniad

02/2018/1200 – Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Rhuthun, Lôn Parcwr, Rhuthun – Cais datblygiad cyfreithlon ar gyfer cynnig i adeiladu adeiladau, offer a pheiriannau yng nghyswllt y gwaith trin dŵr gwastraff sy'n bodoli eisoes – Ardystiwyd

64. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn, yn ddarostyngedig i'r sylwadau isod.*

02/2019/0095 – Capel Bryn Seion, Galltegf, Ruthin

Newid defnydd capel gwag yn annedd, dymchwel storfa ac adeiladu estyniad ochr newydd a darparu pecyn trin carthion newydd

02/2019/0094 – 29 Llwr y Dyffryn, Rhuthun

Adeiladu estyniad llawr cyntaf dros y garej sy'n bodoli eisoes

02/2019/0031 – 36 Bro Deg, Rhuthun

Adeiladu estyniad llawr cyntaf i'r annedd sy'n bodoli eisoes

02/2018/1194 – Duinrell, 73A Erw Goch, Rhuthun

Adeiladu estyniad i flaen yr annedd

02/2019/0118 – Crafnant, Ffordd Llanfair, Rhuthun

Adeiladu dau annedd, addasiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau, llunio mynedfa newydd i gerbydau a gwaith cysylltiedig

02/2019/0155 – Clwydfryn, Stryd y Prior, Rhuthun

Gosod cyflenwad nwy prif gyflenwad a bwylwr nwy gyda ffliw cydbwysu

02/2019/0069 – Priory House, 9 Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun

Newid defnydd o siop fanwerthu i siop goffi

02/2019/0196 – Clywedog, 28 Ty'n y Parc, Rhuthun

Adeiladu estyniad ac addasiadau i'r annedd.

PENDERFYNWYD: *bod gwrthwynebiad i'r cais isod:*

02/2019/0183 – Tir y tu ôl i Ty Cefn, Llanfwrog, Rhuthun

Manylion tirlunio, cynllun gosod a gradda 2 annedd a gyflwynwyd yn unol ag amod 1 caniatâd cynllunio amlinellol 02/2018/0445.

Mae'r anheddau arfaethedig yn rhy fawr o ran maint a más, ac yn cynrychioli gorddatblygu'r safle. Maent yn agos at ei gilydd ac at ffiniau'r safle.

72. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 8 Ebrill 2019 am 8:00pm.*